# ADFER NATUR: SYNIADAU AR GYFER GWEITHREDU



## YSGOLION

**Gellir meithrin dealltwriaeth o natur a pharch tuag ati ymhlith plant o oedran cynnar iawn. Mae bioamrywiaeth yn elfen hanfodol o addysg amgylcheddol, a gellir cysylltu hynny â'r cwricwlwm cenedlaethol mewn llawer o ffyrdd gwahanol.**

### Gallai gweithredu cadarnhaol gynnwys:

- Rheoli a chreu lle i fywyd gwyllt ar dir eich ysgol – bydd amrywiaeth ehangach o blanhigion a chynefinoedd yn denu mwy o amrywiaeth o fywyd gwyllt
- Ymgorffori bioamrywiaeth yng nghwricwla eich ysgol, trwy wyddoniaeth, mathemateg, daearyddiaeth yn ogystal â dinasyddiaeth, celf, Saesneg a Chymraeg. Gallai cwblhau arolwg bioamrywiaeth ar gyfer yr ysgol ddatblygu sgiliau mapio a dadansoddi data
- Trefnu bod yr ysgol yn ymweld â gwarchodfeydd natur lleol – mae yna lawer o warchodfeydd ar hyd a lled Sir Gaerfyrddin, megis Bynea, Brynaman Uchaf a Phen-bre
- Rhannu eich straeon llwyddiant â'r gymuned i ysbrydoli eraill i wneud yr hyn yr ydych wedi'i wneud
- Defnyddio diwrnod HMS ar gyfer hyfforddiant mewn addysg bioamrywiaeth – mae rheoli tir ar gyfer bioamrywiaeth wedi'i neilltuo i ddiwrnod HMS mewn ysgolion cynradd yn y gorffennol
- Defnyddio'r ystafell ddosbarth i amlygu arfer da ar gyfer yr amgylchedd: ailgylchu gwastraff a defnyddio dŵr ac ynni yn ddoeth

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Partneriaeth Natur Sir Gâr • Carmarthenshire Nature Partnership



# DARGANFOD

Os ydych am ddarganfod pa fywyd gwyllt sy'n byw yn eich ardal chi, bydd gwefan Aderyn yn eich helpu. Gallwch fewnbynnu eich cod post a bydd yn dweud wrthych beth sydd wedi'i gofnodi yn eich ardal, neu gallwch chwilio am rywogaethau penodol i weld pa mor brin neu gyffredin yw rhywbeth yng Nghymru. https://aderyn.lercwales.org.uk

Dewch i adnabod eich ardal leol i weld pa gyfleoedd sydd gennych i gyfoethogi'r bywyd gwyllt yno. Pa ddarn o laswelltir y gellid gadael iddo dyfu, ble y gallech blannu ychydig o goed, ble y gallech greu pwll dŵr neu bentwr coed?





# RHEOLI

Defnyddiwch arbenigedd y Partneriaethau Natur Lleol a'r sefydliadau sy'n rhan ohonynt: gallant helpu i roi cyngor ar ba gamau y gallech eu cymryd ar eich safle.
Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin

# CREU

Ceisiwch greu mosäig neu glytwaith o gynefinoedd cysylltiedig. Gallwch gweithio gyda nodweddion naturiol eich tir a chynorthwyo'r hyn sydd yno neu creuwch ardd bywyd gwyllt gyda planhigion peillwyr cyfeillgar..





# DIOGELU

Ceisiwch osgoi defnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr a pheidiwch â defnyddio mawn – defnyddiwch ddewisiadau mawn eraill a helpwch i achub ein mawnogydd gwerthfawr. Cymerwch ran mewn prosiect bywyd gwyllt lleol a gwarchodwch eich safleoedd bywyd gwyllt lleol.

**I gael rhagor o fanylion edrychwch ar:**

- Darganfyddwch fwy am natur yn Sir Gaerfyrddin yn Bioamrywiaeth
- Cysylltwch â Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk am ragor o wybodaeth neu os hoffech gofrestru ar gyfer e-byst Newyddion Natur.
- Adnoddau ar gyfer Gwella Bioamrywiaeth – Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

